

Datganiad Polisi Ansawdd

Mae Dŵr Cymru wedi ymrwymo i ddarparu dŵr yfed glân a diogel, a gwasanaethau glanweithdra ar gyfer cwsmeriaid – nawr, ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, yn unol â diffiniad Dŵr Cymru 2050. Ein gweledigaeth yw ennill ffydd ein cwsmeriaid bob dydd trwy ddarparu'r gwasanaeth hanfodol hwn yn well na neb arall. Mae Dŵr Cymru'n ymdrechu i ragori ar anghenion a disgwyliadau ein cwsmeriaid mewn amgylchedd o welliant parhaus.

Fe gyflawnwn ni hyn trwy:

- Sicrhau bod yr uwch reolwyr yn dangos arweiniad ac ymroddiad trwy gymryd cyfrifoldeb dros effeithiolrwydd y System Rheoli Ansawdd, gan sicrhau ei fod wedi ei hintegreiddio i gyfeiriad strategol a phrosesau Dŵr Cymru gan ddefnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar risg.
- Darparu fframwaith ar gyfer pennu ac adolygu targedau ac amcanion o ran ansawdd a threfnu pwy sy'n gyfrifol am yr amcanion.
- Parhau i weithredu System Rheoli Ansawdd sy'n cynnwys y wybodaeth y mae'n ofynnol ei dogfennu a'i chadw o dan ISO 9001:2015.
- Gwella effeithiolrwydd ein System Rheoli Ansawdd yn barhaus trwy fanteisio'n llwyr ar sgiliau, gwybodaeth a phrofiad ein gweithwyr a thrwy gynlluniau hyfforddi a datblygu a gynlluniwyd ymlaen llaw.
- Ymgysylltu, cyfarwyddo a chynorthwyo pob gweithiwr i fod â dealltwriaeth briodol am bwysigrwydd y System Rheoli Ansawdd, eu cyfrifoldeb dros gyfrannu at ei heffeithiolrwydd a'i pherthnasedd uniongyrchol i lwyddiant Dŵr Cymru.
- Mynd ati'n rheolaidd ac yn barhaus i wahodd, gwerthuso a monitro gwybodaeth am foddhad cwsmeriaid a chydweithwyr.
- Gweithredu gwasanaethau o safon uchel yn ein holl weithgareddau busnes i'n holl gwsmeriaid a phawb sydd â buddiant trwy fonitro ymgysylltiad cwsmeriaid a'r gweithlu â'r cwmni.
- Hyrwyddo ymbweru, arloesi, a herio adeiladol er mwyn sicrhau "Rhagoriaeth ym mhopeth a wnawn."
- Gweithredu yn ôl y safonau moesegol uchaf posibl a chydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol a'r gofynion eraill sy'n berthnasol i'n System Rheoli Ansawdd.
- Hyrwyddo cydweithio a chlustnodi, mabwysiadu a rhannu 'arferion gorau' yn ein holl weithgareddau busnes, gan gynnwys rheolaeth, arferion gweithredol a thechnolegau.
- Monitro cydymffurfiaeth â'r safon trwy adolygiadau misol ar lefel Cyfarwyddwyr. Adrodd i Bwyllgor Ansawdd ac Diogelwch y Bwrdd bob tri mis.

Mae System Rheoli Ansawdd Dŵr Cymru yn ymgorffori gofynion Safonau MCERTS ar gyfer Hunan- fonitro Llif Elifiant.

Caiff y Polisi hwn ei adolygu'n flynyddol a phan fo newidiadau arwyddocaol a/neu berthnasol yn codi.



Peter Perry

Prif Weithredwr | Dŵr Cymru

Ebrill 2024